

Cyngor Cymuned Llanystumdwy

Cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar nos Iau, Chwefror 4ydd, 2016 yn Neuadd Llanystumdwy..

Yn bresennol: Y Cyngorwyr Ifor W Davies, (Cadeirydd); Marian Evans, (Is gadeirydd); Dafydd Williams; Thomas Prys Jones; Trefor W Jones; Aled Lloyd Evans; Alwen Evans; Anwen Jones; Gwilym M Thomas; Naomi Jones a'r Clerc.

1. Ymddiheuriadau. Y Cyngorwyr Margaret Griffith; Sian Angharad Parry a William Ifor Hughes.

2. Cyflwynwyd a chadarnhawyd cofnodion cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd ar Ionawr 7fed, 2016.

3. Materion yn codi o'r cofnodion. Ar y rhaglen.

4. Datgan buddiant personol. Ni fydd y Cynghorydd Thomas Prys Jones yn cymeryd rhan yn y drafodaeth ar gais Pwyllgor Mynwent Capel Helyg am gymorth ariannol am ei fod yn un o ymddiriedolwyr Capel Helyg sy'n gyfrifol am y fynwent. Ni fydd y Cynghorydd Trefor Wyn Jones yn cymeryd rhan yn y drafodaeth ar gais Eisteddfod Gadeiriol Chwilog ac Aelwyd Chwilog am gymorth ariannol achos mae yn aelod o bwyllgorau yr eisteddfod a'r Aelwyd. Ni fydd y Cyngorwyr, Alwen Evans, Marian Evans, Anwen Jones na Naomi Jones yn cymeryd rhan yn y drafodaeth ar gais Pwyllgor Mynwent Newydd Llanystumdwy am gymorth ariannol achos maent yn aelodau o bwyllgor y fynwent. Ni fydd y Cynghorydd Aled Lloyd Evans yn cymeryd rhan yn y drafodaeth ar gais Gŵyl Gerdd Dant Llŷn ac Eifionydd 2016 am gymorth ariannol am ei fod yn aelod o'r pwyllgor ariannol.

Ni fydd y Cynghorydd Gwilym M Thomas yn cymeryd rhan yn y drafodaeth ar rif 12 ar y rhaglen waith, Mynwent Chwilog, oherwydd mae'n Ysgrifennydd Pwyllgor y Fynwent.

5. Cyngor Gwynedd.

1. Priffyrdd a Bwrdeistrefol; Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Rhaglen Waith Trafnidiaeth a Priffyrdd mis Chwefror 2016. Derbyniwyd y wybodaeth y bydd gwaith trwsio ar Bont Rhydybenllig a gwaith traenio ger Soar, Llangybi yn ystod mis Chwefror.

2. Y Pwyllgor Safonau, llythyr oddi wrth Uwch Gyfreithiwr (Corfforaethol) y Cyngor Sir. Derbyniwyd er gwybodaeth yr hysbyseb am Aelod Annibynnol o Bwyllgor Safonau'r Cyngor ac Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau.

3. Sedd wag Ward Rhoslan; llythyr oddi wrth y Swyddog Cofrestru. Caiff y Cyngor yma symud ymlaen i gyfethol aelod newydd; y cam cyntaf fydd gosod Rhybudd yn datgan bwriad i gyfethol. Penderfynwyd gosod hysbysiad ar y Bwrdd Arddangos yn Rhoslan ac ar safle we'r Cyngor.

6. Cyngor Gwynedd – 1. Cais rhif C15/1286/41/LL- Trosi ag ymestyn adeilad allanol presennol i ddefnydd fel uned gwyliau; Pont y Felin, Glany wern, Chwilog. Penderfynwyd gwrthwynebu'r cais yma achos problemau parcio am fod y ffordd yn gul a gallai amharu ar y gymdogaeth.

2. Cais rhif C16/0030/41/LL – Codi estyniad ystafell haul; Drws y Coed, Pencaenewydd. Cefnogwyd y cais yma.

7. Arwyddo cytundeb rhwng cwmni Lightsource SPV 198 Limited a Chyngor Cymuned Llanystumdwy ynghylch tir yn Nhyddyn Gwyn, Gelli Gron, Llanarmon, Pwllheli. LL53 6DQ. Mae pob un Cynghorydd wedi derbyn copi electroneg o'r gytundeb. Penderfynwyd arwyddo, y Cadeirydd ar ran y Cyngor a'r Clerc yn dyst.

8. Llywodraeth Cymru, y Grwp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus; Gwariant Adran 137: y Terfyn ar gyfer 2016-17. Derbyniwyd er gwybodaeth mai £7.42c am bob etholwr yw'r terfyn ar gyfer 2016-17.

9. Gwahoddiad i gyfarfod cyhoeddus Cadw Gwaith ym Mhorthmadog, *Dyfodol Tŷ Moelwyn* yn y Ganolfan, dydd Sadwrn Chwefror 20 am 11.00. Penderfynwyd anfon llythyr yn datgan cefnogaeth y Cyngor yma i'r gwrthwybebiad i gau uned HMRC sy'n cynnig gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg ym Mhorthmadog a'i drosglwyddo i Gaerdydd

10. Cynllun Adnau ar gais y Cynghorwyr Aled Lloyd Evans a Thomas Prys Jones; *Pryder llawer ynglŷn a diffyg ymateb i farn gyhoeddus leol par. Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd a Môn. Nodir mai Adran Democratiaeth y Cyngor sydd a'i adain dros y cyfan. Oes rhyw fodd felly i gael trafodaeth leol efo'r Adran Gynllunio?* yw sylw'r Cynghorydd Thomas Prys Jones.

Penderfynwyd gofyn i'r Cynghorwyr Thomas Prys Jones ac Aled Lloyd Evans ddrafftio llythyr cwyn am y diffyg ymateb i'r farn gyhoeddus leol, i'w anfon at y Clerc a llythyr i gael ei anfon at y Cynghorydd Dafydd Meurig, Aelod y Cabinet gyda chyfrifoldeb am Gynllunio, Mr Iwan Evans, Swyddog Monitro Cyngor Gwynedd, y Cynghorydd Dyfed Edwards, Arweinydd Cyngor Gwynedd, ac anfon copi at Yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas, AC.

11. Un Llais Cymru, hyfforddiant ar *Gyfarfod y Cyngor* yn yr Institiwt, Allt Pafiliwn, Caernarfon rhwng 6.30 a 9.00 pm nos Fawrth, Chwefror 23ain. Roedd y Cynghorydd Naomi Jones yn awyddus i fynd ar y cwrs; y Clerc i wneud y trefniadau ac i wnwud cais am arian bwrsari.

12. Materion yn y gymuned.

Chwilog.

Gair gan y Cynghorydd Gwilym M Thomas ynghylch Mynwent Chwilog.

Cyflwynodd y Cynghorydd Thomas bod Pwyllgor Mynwent Chwilog angen prynu tir er mwyn cael ymestyniad i'r fynwent ac roedd yn gofyn am arweiniad gan y Cyngor yma. Ymneilltuodd y Cynghorydd Thomas ac ar ôl trafodaeth penderfynwyd nodi argyfwng Pwyllgor y Fynwent gan obeithio y gellir datrys y sefyllfa yn fuan ac y gellir ystyried y sefyllfa wrth iddi ddatblygu.

Llanarmon

Cau'r ffordd rhwng Llanarmon a Groeslon Tŷ Newydd. Roedd y ffordd ar gau am wythnos a dau ddiwrnod ar ddechrau mis Ionawr. Penderfynwyd anfon at Adran Trafnidiaeth Cyngor Gwynedd i gwyno nad oedd rhybudd wed cael ei roi am y bwriad o gau'r ffordd, ei fod wedi creu anhwylystod mawr ac i ofyn yn union beth ydi'r drefn pan mae ffordd yn cael ei chau.

Llanystumdwy

Rhoslan

Llangybi;

Cyflwr wyneby ffordd o Groeslon Dulwyn hyd at Lwyn Dwyfog. Penderfynwyd anfon cwyn at Adran Briffyrdd Cyngor Gwynedd.

13. Cyfoeth Naturiol Cymru; Ymgynghoriad ACA a AGA Morol. Derbyniwyd er gwybodaeth.

14. Adroddiad ariannol ar lafar. Derbyniwyd yr adroddiad.

15. Anfonebau angen eu talu:

* Trwy ganiatad y Cadeirydd

Nefyn Cleaning Services Ltd., glanhau chwarterol y llochesi bysiau, £95- + TAW, cyfanswm £114-. Penderfynwyd ei dalu, taliad BACS.

16. Trafodwyd y ceisiadau canlynol am gymorth ariannol a phenderfynwyd fel a ganlyn:

1. Eisteddfod Gadeiriol Chwilog. £400-, siec rhif 100916.
2. Mynwent Capel Helyg. £300-, siec rhif 100917.
3. Aelwyd Chwilog. £400, siec rhif 100918.
4. Cylch Meithrin Chwilog. £600-, siec rhif 100919.
5. Cyngor ar Bopeth, Gwynedd a De Ynys Môn. £25-, siec rhif 100920.
6. O Ddrws i Ddrws. £100-, siec rhif 100921.
7. Gŵyl Gerdd Dant Llŷn ac Eifionydd 2016. £200-, siec rhif 100922.
8. Eisteddfod Genedlaethol Sir Fynwy 2016. £25-, siec rhif 100923.
9. Eisteddfod Gerddorol Gydwladol Llangollen. £25-, siec rhif 100924.
10. Dawns i Bawb. Peidio cyfrannu.
11. Canolfan Therapi Plant Bobath Cymru. Peidio cyfrannu.
12. Cymdeithas Parêd Dewi Sant, Pwllheli. £100-, siec rhif 100925.
13. Shelter Cymru. Peidio cyfrannu.
14. Canolfan Awyr Airbase. £275-, siec rhif 100926.
15. Mynwent Newydd Llanystumdwy. £300-, siec rhif 100927.

Roedd rhain i gyd wedi cyflwyno cais drwy lythyr a mantolen ariannol.

It is possible to get a translation of any minute; contact the Clerk.